

Gwasanaethau cartrefi gofal a gofal cartref

Diffiniadau a chymhwysedd ar gyfer brechiad blynyddol y fflw

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn rhoi disgrifiad o'r hyn sy'n gyfystyr â chartref gofal a gwasanaeth gofal cartref yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 - Canllawiau Cofrestru¹.

Gwasanaethau cartrefi gofal¹

Mae gwasanaeth cartref gofal yn darparu llety, ynghyd â gofal nyrsio neu ofal personol, i unigolyn/unigolion oherwydd eu bod yn agored i niwed neu oherwydd eu hangen. Byddai'r gwasanaethau hyn yn cynnwys gofal preswyl a gofal nyrsio i blant, oedolion neu'r ddau.

Nid yw gwasanaeth sy'n darparu llety a chefnogaeth yn unig yn bodloni'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal. *Nid yw'n ofynnol i gynlluniau y cyfeirir atynt yn aml fel "byw â chymorth" neu "ofal ychwanegol" gofrestru fel gwasanaeth cartref gofal, cyn belled â bod y gofal yn cael ei ddarparu o dan drefniadau cytundebol ar wahân i'r rhai ar gyfer tŷ'r person.* Fel arfer, darperir y gofal a roddir yn y lleoliadau hyn gan ddarparwr a fyddai wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru fel gwasanaeth cefnogaeth cartref.

Mae gweithwyr gofal a gyflogir i ofalu am bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal cofrestredig yn gymwys i gael brechiad blynyddol y fflw os ydynt yn dod i gysylltiad rheolaidd â chleientiaid/preswylwyr. Mae hyn yn cynnwys cartrefi gofal i oedolion hŷn, oedolion iau a phlant. Mae'n cynnwys gwasanaethau llety diogel i blant ac ysgolion arbennig preswyl neu golegau sydd wedi'u cofrestru fel cartrefi gofal gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Gall gweithwyr cartrefi gofal cymwys gael brechiad fflw y GIG am ddim yn eu fferyllfa gymunedol.

Gwasanaethau cefnogaeth cartref²

Mae gwasanaeth cefnogaeth cartref yn cynnwys darparu (neu wneud trefniadau ar gyfer darparu) gofal a chefnogaeth i bobl nad ydynt yn gallu eu darparu drostynt eu hunain oherwydd eu bod yn agored i niwed neu oherwydd eu hangen ac maent yn cael eu darparu i'r person yn ei gartref ei hun, yn ogystal â Byw â Chymorth a Gofal Ychwanegol. **Nid yw hyn yn cynnwys** yr angen am ofal a chefnogaeth sy'n codi oherwydd oedran ifanc person.

Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cefnogaeth cartref nodi'r ardal ddaearyddol maent yn bwriadu darparu'r gwasanaeth ynddi pan fyddant yn gwneud cais i gofrestru. Mae'r ardaloedd daearyddol hyn yn dilyn patrwm y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (sy'n cyd-fynd â phatrwm y Byrddau Iechyd).

Mae gofalwyr cartref yn gymwys i gael brechiad fflw y GIG am ddim yn eu fferyllfa gymunedol.

¹ <https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2020-02/200131-risca2016-reg-guidance-en.pdf> - tudalennau 6 i 9

² <https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2020-02/200131-risca2016-reg-guidance-en.pdf> - tudalennau 10 i 12